IHA

# Rhestr wirio **10 pwynt** ar gyfer ci iachach




1. Dim brithliw (merle)

2. Croen llyfn – dim plygiadau

3. Y trwyn yn ddigon hir i anadlu'n hawdd

4. Amrannau'r llygaid ddim yn troi am allan/troi am allan neu'n gostwng

5. Mae'r llygaid yn eistedd yn ddwfn yn eu socedi – ddim yn chwyddo

6. Mae'r genau'n cau'n gywir – dim gorfrathiad neu danfrathiad

7. Y gynffon yn ddigon hir i wagio

8. Coesau syth – ddim yn wargram

9. Hyd coes naturiol – dim corachedd

10. Asgwrn cefn sy'n gallu ystwytho

Ymunwch â'r chwyldro bridio i greu dyfodol iachach i gŵn.

# Asesiad Iechyd Cynhenid APGAW ar gyfer Cŵn

## Ers dros ganrif, rydyn ni wedi bod yn newid golwg ein cŵn i gyd-fynd â thueddiadau a'n canfyddiad o beth sy'n giwt.

Mae llawer o fathau o gŵn wedi cael eu bridio'n fwriadol i gael nodweddion corfforol eithafol ac, o ganlyniad, rydyn ni wedi creu problem enfawr o ran lles i gŵn ac, yn wir, mae hyn yn argyfwng. Ceir cryn risg y bydd y nodweddion eithafol hyn yn achosi problemau iechyd a lles sylweddol – yn amrywio o broblemau anadlol, cyflyrau poenus y llygaid, heintiau croen, problemau gyda'r asgwrn cefn a chymalau, diffygion niwrolegol, dallineb, byddardod, a gostyngiad mawr mewn disgwyliad oes.

Mae Asesiad Iechyd Cynhenid (IHA) y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol dros Les Anifeiliaid wedi'i greu i fynd i'r afael â hyn ac i gychwyn chwyldro bridio i arwain at gŵn sy'n iachach yn gorfforol.

Mae'r offeryn IHA yn rhestr wirio weledol o 10 maen prawf allweddol ar gyfer nodweddion y gall pob bridiwr, perchennog cŵn neu ddarpar berchennog cŵn eu hasesu'n gyflym ac yn ddibynadwy i wirio nodweddion iechyd cynhenid ci a'i addasrwydd i fridio. Does dim angen unrhyw offer na chymorth milfeddygol ac mae'r offeryn IHA, sydd am ddim i'w ddefnyddio trwy wefan IHA sydd newydd ei lansio (www.innatehealthassessment.ort), yn tywys defnyddwyr gam wrth gam trwy bob un o'r 10 maen prawf gyda chyfarwyddiadau llawn ar sut i asesu.

Cred APGAW na ddylai unrhyw gi ddioddef oherwydd ei olwg a dylid bridio pob ci i gael y nodweddion corfforol sylfaenol sydd eu hangen i fyw bywyd iach a hapus.

### Rhestr wirio 5 pwynt ar gyfer cŵn

- ✓ *A yw eich ci yn gallu anadlu'n rhydd? Dim anadlu swnllyd wrth orffwys, dim ffroenau cul, dim trwynau sydd wedi'u byrhau.*
- ✓ *A oes gan eich ci groen llyfn heb blygiadau ar yr wyneb, y corff na'r coesau?*
- ✓ *A yw llygaid eich ci wedi'u lleoli'n iawn ac yn gallu blincio'n effeithiol?*
- ✓ *A yw coesau blaen a chefn eich ci yn syth o'i flaen ac yn ddigon hir fel bod digon o fwlch rhwng y corff a'r ddaear?*
- ✓ *A oes gan eich ci gynffon sy'n ddigon hir i'w chwifio?*

### Dysgwch ragor am yr IHA ac ymunwch â'r chwyldro bridio ar innatehealthassessment.org, sy'n lansio ar 18 Tachwedd.

Mae Asesiad Iechyd Cynhenid APGAW wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan y sefydliadau canlynol: